**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Chwefror 23ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 7 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes (cadeirydd), Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Shereen Devine, Catherine Jones, Colin Hughes.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**200. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**201. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 8(1)(1) - cynllunio - Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug.
(2) Cyng Gaynor Wood - agenda item 8(1)(1) - cynllunio - Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug.
(3) Cyng Geraint Williams - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(5) Cyng Roy Tickle - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Neuadd y Dref, Dinbych.

**202. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 26ain 2015 a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Chwefror 9fed 2015.**

**203. Materion yn codi:** 26.1.15: (1) Cofnod 185 cylchfan Pwll y Grawys. Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd y Cyng Geraint Williams fod trafodaethau yn dal i fynd ymlaen.

9.2.15: Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**204. Adroddiad y Maer.** Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu tri gweithrediad ers yr adroddiad diwethaf ac ymhelaethodd y Maer ar y gweithrediadau a fynychwyd.

**205. Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi chwech o eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Cyfeiriwyd y datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â niferoedd a chost uwch dimau rheoli mewn Llywodraeth Leol at yr is bwyllgor archwilio dogfennau i'w drafod ynghyd a'r papur gwyn diweddar ar Lywodraeth Leol.
(2) Cyfeiriodd clerc y dref at y plac enamel a dderbyniwyd oddi wrth Trefi Caerog Ewropeaidd a dderbyniwyd gyda diolch. Cytunwyd y dylid arddangos y plac yn gyhoeddus ac awgrymwyd ei arddangos ar flaen Neuadd y Dref. Clerc y dref i wneud ymholiadau gyda Phil Ebbrell gan fod y neuadd wedi ei rhestru.

**206. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 42, Parc Mytton
(3) Treflys Ffordd Rhuthun

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug (gohiriwyd o 9.2.15) dywedwyd na dderbyniwyd yr wybodaeth a ofynnwyd amdano oddi wrth cynllunio CSDd. Derbyniwyd gwybodaeth fod problemau yn debyg gyda'r cais arbennig yma a bod cynllunio CSDd yn hapus i'r cyngor tref ohirio penderfyniad ymhellach tan y cyfarfod nesaf ar Fawrth 9fed. Cytunwyd i ohirio ymhellach yn y gobaith y bydd yr wybodaeth a ofynnwyd amdano wedi ei dderbyn erbyn y dyddiad hynny.

Ynglyn a 3A,3,5, Pwll y Grawys (cynlluniau diwygiedig), atgoffwyd y cyfarfod fod y cais gwreiddiol wedi dod o flaen y cyngor ar Chwefror 10fed 2014 pan benderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad o drawsnewid a newid yr adeiladau o fewn y cynllun. Y gwrthwynebiad wedi ei selio ar gôr gynnydd ar y math yma o ddatblygiad ym Mhwll y Grawys. Wedi ystyried y cynlluniau diwygiedig cytunwyd fod y cyngor yn ailadrodd ei wrthwynebiad ar gyfer y trawsnewid a newid dan sylw ar yr un sail a amlinellwyd ym mis Chwefror 2014.

2. Materion Cynllunio eraill. Nodwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â hyfforddiant cynllunio.

**207. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** (1) Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

(1) Clwb Ffilm Dinbych - tynnwyd y cais yn ôl
(2) Sioe Dinbych a Fflint - gohiriwyd tan y flwyddyn ariannol newydd.
(3) Cae Dai - gohiriwyd am fwy o wybodaeth.

Cyfeiriwyd at y cais cymorthdaliadau a dderbyniwyd yn gynharach y diwrnod yma oddi wrth Clwb Bowlio'r Parc Isaf ynglŷn â'r cais oedd yn gynwysedig yn e-bost y Cyng Colin Hughes am i'r cais gael ei ystyried yn y cyfarfod yma gan fod y sefyllfa yn un eithaf pwysig. Atgoffodd y cyfarfod ei hun, mae trefn arferol y cyngor oedd bod pob cais am gymhorthdal fel arfer yn cael ei gyfeirio at yr is-bwyllgor cymorthdaliadau i'w archwilio'n ofalus. Yn dilyn trafodaeth fer **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gyfeirio'r cais at yr is-bwyllgor cymorthdaliadau i'w archwilio ac argymhelliad.**

**208. Adroddiadau**: (1) Rheolaeth Neuadd y Dref. Ystyriwyd a chymeradwywyd crynodeb ysgrifenedig clerc y dref ar gyfarfod diweddar.

(2) Gefeillio. Ystyriwyd a chymeradwywyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref ar gyfarfod diweddar.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**209 Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams: (1) Pasiwyd y profi dŵr yn Ysgol Pendref. (2) Trigolion yn cael problemau gyda muriau un croen ar eu tai - CSDd yn ymchwilio. (3) Llwybr troed rhwng Ffordd Henllan a'r Crest yn dirywio - CSDd yn edrych ar ymglymiad y gymuned i'w ddatrys. (4) Cyfeiriwyd ymholiadau ynglŷn â chyn Institiwt yr Eglwys at yr aelod dros ganol Dinbych. (5) Y mur yn Ffordd Las yn disgyn i lawr - CSDd yn ymchwilio.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Lôn Ganol - penderfyniad yn agos. Gofynnwyd cwestiwn am y sefyllfa gyfreithiol gyda CSDd wedi cyflwyno bid tra roedd cabinet CSDd yn ymddiriedolwyr. (2) Gwaith ail wynebu ffyrdd Parc Myddleton a Stâd Ddiwydiannol Colomendy wedi ei gwblhau. (3) Mae'n debyg bydd angen arbed £6.5m arall yn 2016 / 2017. (4) Mewn ateb i gwestiwn dywedodd y Cyng Bartley y mynegwyd pryderon ynglŷn â dyfodol Plas Pigot.

**210. Cadarnhau Enwebiad ar gyfer Swydd 2015 / 2016:**

(1) Cadarnhaodd y Cyng Raymond Bartley ei fod yn derbyn yr enwebiad ar gyfer Maer.
(2) Cadarnhaodd y Cyng Margaret Bowe ei bod yn derbyn yr enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer.

**211. Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau o fis Mai hyd fis Medi 2015:** Trafodwyd a chymeradwywyd y rhestr dyddiadau a ddosbarthwyd.

**212. Neuadd y Dref, Dinbych.** Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod o'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf ar Chwefror 9fed i drafod ymglymiad y cyngor tref yn rheolaeth neuadd y dref yn y dyfodol. Cyfeiriodd clerc y dref at y drafft o gytundeb lefel gwasanaeth arfaethedig a baratowyd gan GSDd ac awgrymodd ei fod yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r drafodaeth gan yr aelodau. Roedd y cytundeb lefel gwasanaeth arfaethedig wedi ei lleoli ar y cyfansoddiad rheoli gwreiddiol gydag ychwanegiadau. Trafodwyd y ddogfen. Cyfeiriodd y Cyng Medwyn Williams at y cyfeiriad am CCTV a bod hyn yn cyfeirio at y sustem fewnol o fewn neuadd y dref. Cytunwyd fod y cyfeiriad at aelodaeth y pwyllgor rheoli hefyd yn cynnwys enw'r eilydd o'r cyngor tref, sef y Cyng Brian Davies. Cyfeiriwyd at y ffaith y bydd y pwyllgor rheoli yn cyfarfod pob yn ail fis yn y dyfodol yn lle yn chwarterol. Bydd gan GTD mewnbwn i osod costau llogi yn y dyfodol. Cytunwyd (yn unfrydol) i dderbyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn amodol ar y newid a gytunwyd uchod.

**186. Cyfrifon** 1. <u>Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:</u>

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 12.1.15<br>(Rhif siec. 005562) | - | £91.20 |
| (2) | Grŵp Amgueddfa Dinbych - ffi darlith treftadaeth Clwyd Wynne 15.1.15<br>(Rhif siec. 005563) | - | £40.00 |
| (3) | Tony Griffiths - ffi darlith treftadaeth 5.2.15<br>(Rhif siec. 005564) | - | £30.00 |
| (4) | Gwyn Jones - ffi darlithoedd treftadaeth 22.1.15 & 12.2.15<br>(Rhif siec. 005565) | - | £50.00 |
| (5) | Gwynn Matthews - ffi darlith treftadaeth a chostau teithio 19.2.15<br>(Rhif siec. 005566) | - | £100.00 |
| (6) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Ionawr 2015)<br>(Rhif siec. 005567) | - | £8.82 |
| (7) | BT - bil ffon<br>(Rhif siec. 005568) | - | £181.92 |
| (8) | CSDd - Goleuadau Nadolig 2014<br>(Cofnod 79(3(4) yn cyfeirio)<br>(Rhif siec. 005569) | - | £11,700.00 |
| (10) | CSDd - llogi neuadd y dref ar gyfer 7 darlith treftadaeth<br>(Rhif siec. 005570) | - | £350.00 |
| (11) | Zen Internet - darpariaeth ADSL (Mawrth)<br>(Rhif siec. 005571) | - | £18.37 |
| (12) | Clerc y dref - ad-daliad costau anrhegion i'r darlithwyr treftadaeth<br>Gwyn Dodd ac R M Owen<br>(Rhif siec. 005572) | - | £49.95 |
| (13) | E Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P Garden (Ionawr)<br>(Rhif siec. 005573) | - | £60.00 |

Cyfanswm taliadau: £12,860.26

2. Unrhyw faterion ariannol eraill: Nodwyd derbyn £2,461.44 oddi wrth Grŵp Cynefin ynglŷn â chynnal a chadw'r Parc Sglefrio

Yn y fan yma symudodd y cyfarfod i Ran 2 - materion cyfrinachol pan waherddir y wasg a'r cyhoedd.

Yn dilyn trafod materion o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.58 o'r gloch.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:.........................